



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Pwyllgor Gwasanaethau  
Ambiwlans Brys  
Emergency Ambulance  
Services Committee



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# COVID-19

## Gofynion a chyllid y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS)

### 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gofynion cludo cleifion y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS) yng Nghymru yn ystod yr ymateb brys i COVID-19. Bydd y gofynion hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus.

Mae'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn allweddol i sicrhau bod capasiti i gefnogi gofynion symud cleifion sy'n deillio o gynlluniau COVID-19.

Bydd y broses o symud cleifion yn effeithiol yn bosibl dim ond drwy gydweithio ar draws Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) a phartneriaid.

Yn ogystal â chefnogi trosglwyddo a rhyddhau cleifion yn ddiogel ac yn gyflymach, mae'n rhaid inni hefyd barhau i ddarparu trafndiaeth i gleifion sydd angen mynd i apwyntiadau gofal parhaus a chleifion arenol ac oncoleg sydd angen gwell gwasanaeth i ac o leoliadau gofal yn ddiogel ac yn gyflym yn ystod yr ymateb i COVID-19, fel y nodwyd yn Adran 2 isod.

Mae NEPTS yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan WAST gan ddefnyddio model amlddarparwr. Mae'r model yn cael ei gydlynu gan WAST ac mae'n cynnwys trafndiaeth nad yw'n frys a ddarperir gan WAST ac ystod o ddarparwyr eraill.

Mae'r ddogfen yn amlinellu mai WAST fydd y darparwr canolog ar gyfer caffael a lleoli capasiti ychwanegol yn ystod yr ymateb brys i COVID-19 i sicrhau y gellir rheoli'r holl adnoddau sydd ar gael yn ganolog i ymateb i gynlluniau COVID-19 y byrddau iechyd yn ystod y cyfnod presennol.

Byddwn hefyd yn annog cyfeillion, teulu a chymdogion i helpu gyda thrafnidiaeth i

helpu'r GIG i ymdopi yn ystod pandemig COVID.

## **2. Beth mae hyn yn ei olygu i gleifion?**

### **2.1 Cleifion sy'n cael eu trosglwyddo neu eu rhyddhau**

Yn unol â'r trefniadau Comisiynu NEPTS Cenedlaethol, bydd pob Trafnidiaeth i Gleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn cael eu cydlynu drwy WAST. Bydd cleifion sydd angen ymateb NEPTS yn gwneud un o'r canlynol:

- Cysylltu â WAST yn uniongyrchol ar y rhif NEPTS cenedlaethol,
- Gofyn i Weithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol gysylltu â WAST ar eu rhan.

### **2.2 Blaenoriaethu Trafnidiaeth i Gleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys**

Bydd WAST, yn unol â'u cynllun ymateb i bandemig yn:

- Sicrhau bod cleifion sy'n gadael yr ysbyty yn gallu cael eu cludo i ben eu taith os na fydd eu teulu/gofalwyr yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn.
- Sicrhau bod systemau ateb galwadau ac archebu NEPTS yn gallu hwyluso rhyddhau cleifion yn effeithiol.
- Adnabod gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol y gellir eu hatal ac adleoli staff i wasanaethau hanfodol os oes angen.
- Hwyluso'r galw cynyddol i symud cleifion rhwng safleoedd.
- Cynnal darpariaeth arennol ac oncoleg uwch.

## **3. Beth yw'r camau gweithredu ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru?**

Bydd WAST yn parhau i gydlynu'r holl drafnidiaeth i gleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys ar draws Cymru gan gynnwys y ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd o dan y model amlddarparwr.

Bydd WAST yn:

- Adnabod yr holl gapasiti trafnidiaeth ar draws y sectorau i ateb y galw a ragwelir.
- Sicrhau bod y broses ar gyfer archebu cleifion a Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn glir, yn syml ac yn cael ei gyfathrebu i wasanaethau gofal sylfaenol, aciwt a chymunedol.
- Cydweithio gyda'r Byrddau Iechyd a Chomisiynwyr i gytuno ar yr adnoddau sydd ar gael yn unol â'r galw cynyddol.
- Rhoi gwybod i Brif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwylans cyn gynted â phosibl am unrhyw dor rheolau yng ngofynion ansawdd, diogelwch a chraidd fframwaith comisiynu NEPTS.
- Sicrhau bod cyfarpar diogelu personol (PPE) yn cael ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaethau a bod cerbydau'n cael eu dihalogi.
- Sicrhau bod y canllawiau ar 'gysgodi' a diogelu pobl sydd wedi'u hadnabod fel rhai eithriadol o agored i niwed ar sail feddygol yn sgil COVID-19 a ddisgrifir yn *Atodiad A* yn cael eu dilyn.
- Bydd WAST yn cydlynu logisteg trafnidiaeth yn genedlaethol gyda phob

partner sy'n cyfrannu yn ystod pandemig COVID-19.

#### **4. Beth yw'r camau gweithredu ar gyfer Byrddau Iechyd?**

Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod cynlluniau capasiti ychwanegol yn cael eu rhannu drwy'r dulliau presennol gyda WAST a'r Comisiynwyr cyn gynted â phosibl. Mae'n rhaid iddynt hefyd sicrhau bod WAST yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ynglŷn â'r newidiadau i'r cynlluniau hyn.

Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd gysylltu â WAST, mor agos â phosibl at ddechrau'r newid, ynglŷn ag unrhyw newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth gan sicrhau bod manylion llawn y newid arfaethedig yn cael eu datgelu os yw'n briodol.

Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod cleifion wedi'u cofrestru i gael trafnidiaeth yn unol â system mandad WAST ac yn barod i gael eu cludo heb unrhyw oedi.

I gefnogi WAST i gynllunio a chydlynu adnoddau, rhaid rhannu rhestr o gleifion sy'n barod i gael eu rhyddhau o'r ysbyty cyn gynted ag y bydd ar gael, ac yn rheolaidd yn ystod y dydd yn barhaus drwy fecanweithiau Haen 2 a 3 presennol.

**Ni fydd** Byrddau Iechyd yn rhoi contractau yn annibynnol i ddarparu trafnidiaeth. Bydd Byrddau Iechyd yn gweithio gyda WAST i adnabod gofynion trafnidiaeth yn unol â chynlluniau.

#### **5. Beth yw'r camau gweithredu ar gyfer y comisiynwyr ambiwlans?**

Bydd comisiynwyr NEPTS, yn unol â'r cytundebau comisiynu cenedlaethol, yn:

- Cydweithio gyda WAST a'r Byrddau Iechyd i gefnogi cynllunio a darparu NEPTS capasiti craidd ac ymchwydd yn seiliedig ar y galw a ragwelir yn ystod pandemig COVID-19.
- Cysylltu â Byrddau Iechyd, awdurdodau lleol a'r system ehangach i ddarparu ymateb strategol ar y cyd i ofynion trafnidiaeth, gan gynnwys helpu i ganfod dewisiadau ar gyfer capasiti ychwanegol neu gaffael offer os oes angen.

#### **6. Rôl partneriaid amlsector sy'n darparu trafnidiaeth yn ystod pandemig COVID-19.**

Bydd NEPTS yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio'r model amlddarparwr. Mae WAST eisoes yn rhoi contractau i sefydliadau sector annibynnol, 3ydd sector a'r sector gwirfoddol i ddarparu'r model amlddarparwr.

Yn y sefyllfa bresennol, mae'n rhaid i WAST geisio cynyddu capasiti yn syth drwy ddefnyddio'r holl gapasiti sydd ar gael yn y sectorau presennol yn ogystal â chanfod cyfraniadau gan sectorau nad ydynt ar hyn o bryd yn darparu trafnidiaeth i gleifion e.e. y lluoedd arfog.

#### **7. Diogelwch a llesiant staff**

Bydd WAST yn sicrhau y cedwir at safonau ansawdd a gofynion craidd y fframwaith comisiynu, fel bod diogelwch a llesiant cleifion a staff yn cael ei sicrhau.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n rhaid i WAST/NEPTS gadw at ganllawiau presennol a chanllawiau newydd ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol a dihalogi cerbydau.

Rhaid i'r Uned Pandemig Gweithredol dynnu sylw Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwylans at unrhyw enghreifftiau o wro o'r canllawiau hyn. I leihau'r risg o haint, dylai staff a gwirfoddolwyr sy'n cefnogi cludo cleifion y mae amheuaeth eu bod yn dioddef o COVID-19 a'r cleifion lle cadarnhawyd hyn, weithredu'r canllawiau presennol ar gyfer y GIG ar ddefnydd priodol a chymesur o gyfarpar diogelu personol a dihalogi cerbydau.

I ddiogelu staff NEPTS a chleifion rhag cael eu heintio â COVID-19:

- Bydd pared dros dro yn cael ei osod ym mhob cerbyd – datrysiad y gellir ei roi ar waith yn syth yw dwy haen o bolythen wedi'u selio â thâp, a gellir gosod pared plastig caled os oes angen.
- Rhaid glanhau pob cerbyd yn amlach nag arfer. Bydd tu mewn pob cerbyd yn cael ei lanhau gyda chadachau clorin ar ôl pob taith, a'u glanhau gyda thoddiant clorin 1000ppm unwaith y dydd.
- Dylai'r gwasanaeth roi trefniadau ar waith i alluogi gwasanaethau gwirfoddol i fedru gwneud hyn os ydynt yn defnyddio eu cerbydau eu hunain.

Ni ddylai unigolion nad ydynt yn hanfodol deithio yn yr un rhan o'r cerbyd â chleifion a all fod wedi'u heintio â COVID-19. Rhaid gofyn i aelodau'r teulu a pherthnasau'r cleifion hynny i aros gartref a pheidio â dod i'r ysbyty, oni bai eu bod yn ofalwr. Dylid rhoi manylion cyswllt yr ysbyty iddynt a gofyn iddynt ffonio yn nes ymlaen os oes angen. Rhaid i riant neu warcheidwad deithio gyda phlant o dan 18 oed.

Dylid gwneud pob ymdrech i gludo cleifion symptomatig ar eu pennau eu hunain os yw'n bosibl, fel cleifion â pheswch cyson a/neu dymheredd uchel. Ond os yw'r gwasanaeth dan bwysau mawr, gellir cludo dau glaf gyda symptomau COVID-19 gyda'i gilydd a dylent wisgo masg llawfeddygol gwrth-hylif (FRSM).

Gwneir pob ymdrech i helpu i wneud yn siŵr bod staff NEPTS yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal â'r rhagofalon uchod, bydd gan staff NEPTS fynediad at brofion COVID-19 yn unol â'r argaeledd i staff clinigol, cyn gynted ag y byddent ar gael. Bydd profion yn cael eu blaenoriaethu a'u cynnal ar lefel leol.

## **8. Cyllid**

Bydd Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwylans yn gweithredu fel y pwynt cydlynu ar ran y Byrddau Iechyd (EASC) a WAST gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw ofynion cyllid ychwanegol.

Bydd canllawiau pellach ar drosglwyddo / NEPTS ac ysbytai maes ar gael yn fuan.

## Atodiad A: Cleifion risg uchel

Fel y nodwyd yn y [canllawiau ar ddiogelu ac amddiffyn pobl a ddiffinnir fel unigolion eithriadol o agored i niwed ar sail feddygol yn sgil COVID-19](#), mae cleifion risg uchel yn cynnwys:

1. Cleifion sydd wedi cael trawsblaniad organ solet.
2. Pobl â mathau penodol o ganser:
  - canser yr ysgyfaint: sy'n cael chemotherapi weithredol neu radiotherapi radical
  - canser y gwaed neu fêr esgyrn fel lewcemia, lymffoma neu myeloma: ar unrhyw gam o'u triniaeth
  - pobl sy'n cael triniaeth imiwnotherapi neu driniaeth gwrthgyrff parhaus arall ar gyfer canser
  - pobl sy'n cael triniaeth canser arall wedi'i dargedu a all effeithio ar y system imiwneidd, fel atalydd cinasau proteinau neu atalydd PARP
  - pobl sydd wedi cael trawsblaniad mêr esgyrn neu fôn-gelloedd yn y chwe mis diwethaf, neu sy'n dal i gymryd cyffuriau gwrthimiwneidd.
3. Pobl gyda chyflyrau anadlol difrifol, gan gynnwys ffeibrosis systig, asthma difrifol a clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint difrifol.
4. Pobl gydag afiechydon prin a gwall cynhenid mewn metabolaeth sy'n cynyddu'r risg o haint yn sylweddol (fel diffyg imiwneidd cyfun difrifol, clefyd y crymangelloedd mewn unigolion homosygaid).
5. Pobl ar therapïau gwrthimiwneidd sy'n ddigonol i gynyddu'r risg o haint yn sylweddol.
6. Merched beichiog sydd â chlefyd cynhenid difrifol ar y galon.